

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 15fed o Ionawr 2018 am 7:00pm

Presennol: Cyngorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cyngorwyr: Bethan Lawton, Peter Parker, Alan H. Jones

- Ymddiheuriadau: Cyngorwyr Arwel Pierce, Griffith Evan Thomas, Simon Jones
- Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cyngorydd ddatgan buddiant
- Derbyn cofnodion 20 Tachwedd 2017

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

- Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101580	£333.08
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101581	£83.40
Y Ganolfan	Llogi Ystafell	101582	£18.00
J.D.Roberts	Archwilio Mewnol	101583	£60.00
Jones & Jones	Torri gwair (Pentref)	101584	£259.20

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.

- Ceisiadau ariannol:

- 5.1 Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd
- 5.2 Theatr Bara Caws Cyf
- 5.3 Y Groes Goch Brydeinig
- 5.4 Dawns i Bawb
- 5.5 Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
- 5.6 Capel Bethlehem, Bryncrug

PENDERFYNIAD:

- 5.1 Gadael ar y bwrdd tan ddiwedd y flwyddyn ariannol
- 5.2 Gadael ar y bwrdd tan ddiwedd y flwyddyn ariannol
- 5.3 Gadael ar y bwrdd tan ddiwedd y flwyddyn ariannol
- 5.4 Gadael ar y bwrdd tan ddiwedd y flwyddyn ariannol
- 5.5 Gadael ar y bwrdd tan ddiwedd y flwyddyn ariannol
- 5.6 I gynnig £15 fel rhodd tuag at trydan i'r goeden Nadolig

- Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer 2017/18:

Derbyniwyd llythyr gan Mr John D. Roberts CIPFA yn datgan nad oedd am ymgymryd â'r gwaith.

PENDERFYNIAD:

I anfon llythyr at Mr J.D.Roberts er mwyn diolch iddo am flynyddoedd lawer o wasanaeth i'r cyngor.
I benodi Luned F. Jones, Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn archwilydd mewnol ar gyfer 2017/18.

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Llwyn Awel, Bryncrug (NP5/55/315):

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad.

- Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd y canlynol:

- ffiniau yn iawn
- dŵr yn cael ei adael ymlaen yn y Pafiliwn
- nyten ar goll ar siglen

-colfach (hinge) ar gaead ffenestr (window shutter) wedi torri

PENDERFYNIAD: Gofyn i Mr Kevin Jones edrych ar yr golfach (hinge)

9. Cae Chwarae - Dyfynbrisiau torri gwair yn 2018:

Adroddwyd nad oedd un o'r contractwyr yn dymuno parhau gyda'r dyfynbris.

PENDERFYNIAD: Wedi derbyn manylion yswiriant atebolrwydd, i dderbyn dyfynbris J.K.Jones Landscapes, Machynlleth.

10. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

-Cyngor Gwynedd yn sefydlu cwmni er mwyn rhedeg y canolfannau hamdden ac yn gobeithio cadw pob canolfan hamdden ar agor

-Yn mynychu cyfarfod er mwyn trafod y sefyllfa ariannol, gyda mwy o doriadau ar y ffordd

-Wedi derbyn swynion ynglŷn â dŵr yn sefyll ar y ffordd ger Bryn Glas, wedi hysbysu Prif Beiriannydd Meirionnydd

-Llochesi bws wedi pydru ac nad yw Mr Les Hunt yn medru eu hatgyweirio

PENDERFYNIAD:

I dderbyn y wybodaeth gan y Cynghorydd Sir

Edrych am bris lloches bws newydd

Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd parthed dŵr ar y ffordd ger Ynys-y-Maengwyn ac Abertrinant, sef bod y broblem yn digwydd yn aml a gofyn pam nad yw'r Cyngor yn ei ddatrys

11. Adolygu gwariant o Ebrill 2017 i Ragfyr 2017:

Dosbarthwyd taenlen yn manylu'r gwariant o Ebrill 2017 i mis Rhagfyr 2017. Nodwyd bod nifer o daliadau ar ôl i'w gwneud, gydag amcangyfrif oddeutu £2,000 o wariant i'w wneud o mis Ionawr 2018 i ddiwedd mis Mawrth 2018.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr adolygiad o Ebrill 2017 i mis Rhagfyr 2017.

12. Gosod cyllideb ar gyfer 2018/19:

CYLLIDEB 2018/2019

CLERC - CYFLOG	£1,200.00
CLERC - YG	£200.00
CLERC - TEITHIO	£500.00
CLERC - HYFFORDDIANT	£75.00
GWEINYDDOL - DEUNYDD SWYDDFA	£100.00
GWEINYDDOL - POSTIO	£75.00
GWEINYDDOL - LLOGI YSTAFELL	£200.00
GWEINYDDOL - FFÔN	£100.00
GWEINYDDOL - GWEFAN	£100.00
PENTREF - CYNNAL A CHADW	£1,000.00
PENTREF - BLODAU	£350.00
PENTREF - FEINCIAU	£100.00
PENTREF - LLOCHESI BWS	£250.00
PENTREF - TOILED	£2,000.00
CAE - TRYDAN	£50.00
CAE - PAFILIWN	£1,000.00
CAE - TORRI GWAIR	£1,000.00
CAE - OFFER CHWARAE NEWYDD	£0.00
CAE - CYNNAL A CHADW OFFER	£600.00
CAE - BINIAU 'SBWRIEL	£120.00
CYFRANIADAU A.137	£750.00

CORFFORAETHOL - UN LLAIS CYMRU	£110.00
CORFFORAETHOL - YSWIRIANT	£650.00
CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD MEWNOL	£100.00
CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD ALLANOL	£250.00
AELODAU - ETHOLIAD	£0.00
AELODAU - HYFFORDDIANT	£200.00
AELODAU - COSTAU TEITHIO	£100.00
AELODAU - LWFANS	£1,350.00
AELODAU - LWFANS GOFALU	£0.00
SEFYLLFA ANARFEROL	£1,000.00
CYFANSWM	£13,530.00

PENDERFYNIAD: I osod cyllideb o £13,530 ar gyfer 2018/19.

13. Gosod y bresept ar gyfer 2018/19:

Cafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â balansau y Cyngor. Amcangyfrifwyd y byddai oddeutu £14,000 yng nghyfrifon y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o ystyried asedau'r Cyngor, sef offer chwarae a'r Pafiliwn. Y dylid cadw lefel y balansau rhwng £10,000 a £15,000.

PENDERFYNIAD: I osod y bresept ar gyfer 2018/19 yn £12,000, sydd yn golygu peidio codi'r bresept yn uwch.

14. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod y Cynghorwyr canlynol yn medru llofnodi sieciau ar ran y Cyngor ac Elusen Dolgoch: R.Evans, A.Jones, B.Lawton, P.Parker, A.Pierce, G.Thomas.

Trafodwyd safon annerbyniol llwybr cerdded rhif 6 (Ysgubor Wen tuag at Pencraig).

PENDERFYNIAD: I hysbysu Swyddog Hawliau Tramwy parthed safon llwybr rhif 6, atgoffa'r Swyddog o'r angen am arwydd ger Cil y Parc.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:05pm

Llofnod y Cadeirydd